

## EUDDOGWY (Oudoceus), sant, fl. yn niwedd y 6ed ganrif

**Enw:** Euddogwy  
**Rhiant:** Anauued  
**Rhiant:** Buddig  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** sant  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Hywel David Emanuel

Un o esgobion cynnar Llandaf. 'Buchedd' a geir yn ' Llyfr Llandaf ' yw yr unig ffynhonnell am ei fywyd. Dywed honno mai mab oedd Euddogwy i Buddig, tywysog Llydewig, ac Anauued, chwaer **Teilo Sant**. [Saif yr ail 'u' yn Anauued am 'f'.] Er cyflawni addewid, ymddiriedwyd Euddogwy i ofal ei ewythr, **Teilo**, a dychwelodd i Landaf gydag ef. Euddogwy ydoedd olynnydd **Teilo** yn yr esgobaeth, a dywedir iddo dalu gwrogaeth i Gaergaint. Rhydd y gweddill o'r 'Fuchedd' ddisgrifiadau o daith Euddogwy i Rufain, o'r modd y symudodd greiriau o Dyddewi a Llandeilo Fawr i Landaf, ac o'r gwyrthiau a gyflawnwyd ganddo. Trwy gyfrwng un o'r gwyrthiau hyn, daeth i gyffyrddiad â **Gildas Sant**. Bu farw 2 Gorffennaf, a dethlid ei yl ar y dydd hwnnw. Cyfansoddwyd ' Llyfr Llandaf ' fel cyfanwaith yn y 12fed ganrif gyda'r bwriad o ychwanegu at safle a dylanwad esgobaeth Llandaf fel y'i had-drefnwyd hi gan y Normaniaid. Y mae'r ' Vita Beati Oudocei ' a'r un siarter ar hugain sydd yn ei ddilyn yn ffurfio gyda'i gilydd ran hanfodol o'r cynllun cyffredinol. Nid yw'r 'Fuchedd' o unrhyw werth hanesyddol, ac y mae'n frith o wallau amseryddol a ffugiadau amlwg. Asiwyd traddodiadau am ddau neu dri cymeriad gwahanol ynghyd, a gwneir Eudoce, esgob ym Morgannwg yn y 9fed ganrif, yn Euddogwy Sant trwy ei gyplysu â'r person a roddodd ei enw i Landogo yn sir Fynwy, yr unig eglwys sydd yn arddel Euddogwy fel ei noddwr.

### Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

### Ffynonellau

*The Lives of the British Saints*, iv, 28-36

J. Gwenogvryn Evans a John Rhys, *The Text of the Book of Llan Dâv* (Oxford 1893), 130-60

G. H. Doble, *Saint Oudoceus extract from "The Journal of Theological Studies" July-October, 1942 (Vol.XLIII, No.171-2) and January-April, 1943 (Vol.XLIV, No.173-4)*

Duine, *Memento des sources hagiographiques del'histoire de Bretagne* (1918), 131

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, iv, 123-57

### Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Euddogwy](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7110271](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.